



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Iau, 30 Gorffennaf 2020 am 10.00 am ym Virtual.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd S. Rees-Owen Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd E Griffiths

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Mrs J Clark, Pennaeth Diogelu
Mr L Lewis, Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc
Mr C Mann, Rheolwr Tîm Adolygu
Ms M Meredith, Rheolwraig y Gwasanaethau Preswyl
Ms K Webster, Dirprwy Brif Seicolegydd Addysg

43 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir cyntaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser a Thros Gynnal Plant Cymru.

44 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

45 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2020 yn rhai cywir.

46 Newid i Drefn yr Agenda

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

47 **Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol 2019/20**

Rhannodd Gadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol Ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20 â'r Bwrdd.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod sawl adroddiad wedi cael ei drafod yn ystod y flwyddyn, a oedd wedi arwain at drafodaethau diddorol. Cafodd dau gyfarfod diwethaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol eu canslo yn sgil argyfwng COVID-19. O ganlyniad i hynny, bydd nifer o adroddiadau oedd yn rhan o'r rhaglen waith yn cael eu trafod yn ystod y flwyddyn nesaf.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Aelodau a swyddogion y Bwrdd Rhianta Corfforaethol am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn.

Awgrymodd un Aelod bod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn canolbwyntio ar ddulliau ymyrraeth ac atal yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020/21.

Nododd un Aelod y byddai sesiwn hyfforddi ar gyfer holl Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol yn ddefnyddiol i sicrhau eu bod nhw'n effro i'w cyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol.

Cytunodd Aelodau bod presenoldeb dau berson ifanc o Voices From Care yn hanfodol ac yn rhoi cipolwg i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'u profiadau nhw.

Yn amodol ar newid bach i fformat y ddogfen, **PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:**

1. Cyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol (drafft), ble'n addas, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, ac yna i'r Cabinet; ac
2. Anfon y fersiwn terfynol o'r adroddiad ymlaen i AGC er gwybodaeth;

48 **Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf**

Rhannodd Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf adolygiad blynyddol o waith y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc ar gyfer 2019/20 gyda'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn ogystal â gwybodaeth mewn perthynas â newid strategol yn y dyfodol a'r effaith ar ddarparu'r gwasanaeth.

Tynnwyd sylw Aelodau at Adran 4 yr adroddiad, sy'n cynnwys manylion y gwaith sylweddol sydd wedi'i gyflawni gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, er gwaetha'r pwysau ariannol.

Siaradodd y Swyddog am raglen 'Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuentid', sydd wedi cael ei datblygu i wella a datblygu dulliau atal ar draws y gwasanaethau troseddau ieuentid. Mae'r ddogfen yn nodi cyngor mewn perthynas â'r weledigaeth ar gyfer Cyfiawnder Ieuentid yng Nghymru gan weithredu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyrlon o drawma.

Cafodd Aelodau wybod bod gwaith atal a gwaith dargyfeiriol yn cyfrif am dros hanner o'r gwaith gafodd ei gyflawni gan y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc.

Roedd hyn er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifainc lle mae'r perygl o droseddu'n effeithio ar y gymuned ac ar les pobl ifainc/oedolion mewn modd negyddol. Felly, o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr achosion, dysgodd Aelodau bod angen ailstrwythuro'r gwasanaeth er mwyn gweithredu dull mwy cydlynol o ran gwaith atal ar y cyd ag asiantaethau partner.

Aeth y Swyddog ymlaen i drafod cyllid Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc (PPEYP) Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod modd cyflawni gwaith atal allweddol. Rhoddodd y Swyddog wybod bod pryderon wedi'u codi ar hyd a lled Cymru sy'n nodi y dylai'r cyllid gael ei ddiogelu er mwyn parhau i ddatblygu, dosbarthu a chydlynu ymyraethau a gwasanaethau ataliol.

Cyn iddo gloi ei gyflwyniad, manteisiodd y swyddog ar y cyfle i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â'r gwaith gafodd ei wneud yn ystod argyfwng cenedlaethol Covid-19. Roedd yr Aelodau'n falch o ddysgu bod swyddogion wedi parhau i gefnogi pobl ifainc yn y ddalfa trwy gyflawni gwaith sylweddol, mynd gyda'r bobl ifainc i'r llys a'r orsaf heddlu a chyflawni gwaith cyfryngu yng nghartrefi'r plant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad manwl a siaradodd am bwysigrwydd y drafodaeth i gynnal y ddarpariaeth iechyd meddwl yn rhan o Lwybr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ('CAMHS')/Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc.

Siaradodd yr Is-gadeirydd yn gadarnhaol am yr adroddiad, a rhoddodd glod i'r swyddog am y gwaith arbennig sydd wedi cael ei wneud gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth, yn dilyn toriadau o ran cyllid. Pwysleisiodd yr Aelod yr angen i ganolbwyntio ar y tri Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol, roedd yn falch o nodi bod y nifer y bobl ifainc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuencid yn ardal Cwm Taf yn parhau i fod yn isel.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Cydnabod y newidiadau strategol arfaethedig o fewn y System Cyfiawnder Ieuencid a'r effaith bosibl ar waith y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc;
2. Derbyn adroddiadau pellach maes o law er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon ar y cynnydd a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r newid arfaethedig i'r gwasanaeth.

49 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Yn dilyn yr ymddiheuriad gan Tros Gynnal Plant Cymru, cytunodd y Bwrdd i ohirio'r drafodaeth ynglŷn â'r adroddiad tan gyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

50 Plant sy'n Derbyn Gofal: Deilliannau Addysgol

Rhannodd Dirprwy Flaen Swyddog – Seicolegydd Addysg yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â deilliannau addysgol y Plant sy'n Derbyn Gofal yn Rhondda Cynon Taf yn ystod 2018/19 â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Roedd un Aelod yn falch o nodi bod y garfan PDG wedi cefnogi 14 ysgol i gyflawni Marc Ansawdd Ysgolion sy'n Ystyrllon o Blant sy'n Derbyn Gofal. Holodd a fyddai'r holl ysgolion yn cael eu hannog i gyflawni'r cymhwyster wrth

symud ymlaen. Eglurodd y swyddog ei fod yn gyfrifoldeb ar yr ysgolion i'w cyflwyno'u hunain ar gyfer y marc a'i fod yn cynnwys proses gymhleth a thri cham dros gyfnod o amser. Cytunodd Aelodau y byddai angen ymrwymo i'r broses, ond cytunon nhw y byddai'n fuddiol i drafod y mater yn ystod cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol nesaf yr Aelodau.

Holodd un Aelod ynglŷn â sut roedd pobl ifainc wedi ymdopi o ran cyrhaeddiad addysgol yn ystod y cyfyngiadau symud. Rhoddodd y Swyddog wybod bod y mwyafrif o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi ymdopi'n dda yn ystod y cyfnod a bod y garfan wedi darparu cymorth rhithwir neu wedi mynychu canolfannau ar gyfer y rheiny ag anghenion penodol.

Cynhaliwyd trafodaethau mewn perthynas ag adran 11.2 o'r adroddiad, oedd yn nodi bod y data deilliannau'n awgrymu bod angen i'r Cyngor wneud pethau'n wahanol. Nododd Aelodau bod angen dull cyfannol a bod y data cyrhaeddiad ddim yn ystyried deilliannau o ran sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y person ifanc. Roedden nhw o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i fabwysiadu dull manwl wedi'i gynllunio ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Drafod yr wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad; a
3. Derbyn rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r strategaeth i gymeradwyo'r data o ran deilliannau ar gyfer pobl ifainc sy'n agored i niwed.

51 Adroddiad Swyddog Adolygu Annibynnol

Rhannodd y Pennaeth Gwasanaeth wybodaeth mewn perthynas â gwaith y Gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 31 Rhagfyr 2019 ac 1 Ionawr 2020 a 31 Mawrth 2020 â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Nododd Aelodau mai'r bwriad oedd trafod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 31 Rhagfyr 2019 cyn y cyfyngiadau symud, ond cafodd y cyfarfod ei ganslo.

Canolbwyntiodd y Swyddog ar y chwarter diweddaraf, a chafodd Aelodau wybod bod 717 o blant yn derbyn gofal gan RCT yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2020 - 31 Mawrth 2020, sy'n gynydd o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Ers y cyfnod diwethaf, dysgodd Aelodau bod cynnydd bach wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi'u lleoli tu allan i'r sir o ganlyniad i'r cynnydd yn y niferoedd, ond pwysleisiodd y swyddog bod lleoliadau y tu allan i'r sir yn cynnwys lleoliad gydag aelodau o'r teulu.

Dywedodd y Swyddog bod 447 cyfarfod adolygu materion Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2020. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi cadeirio 11 Adolygiad PDG a Chynadledau Adolygu i dynnu enwau plant sy'n derbyn gofal sydd â Gorchymyn Gofal o'r Gofrestr Amddiffyn Plant.

Dysgodd yr Aelodau bod y Gwasanaeth Adolygu'n cynnwys 11 Swyddog Adolygu Annibynnol. Roedd Aelodau'n falch o ddysgu bod Rheolwr Gwasanaeth parhaol wedi cael ei benodi.

Mewn perthynas â goblygiadau pandemig Covid-19, pwysleisiodd y Swyddog bod Swyddogion wedi parhau i flaenoriaethu ac ymgysylltu â phobl ifainc a'u teuluoedd gan ddefnyddio dulliau rhithwir. Er nad oedd unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod yma, sydd hefyd wedi cyfrannu at yr anhawster o ran ymgysylltu, cafodd 13 datrysiaid eu codi. Ychwanegodd y Swyddog bod oedi wedi bod o ran gwefan 2Sides o ganlyniad i'r pandemig a'r newidiadau o ran swyddi. Fodd bynnag, bydd y wefan yn cael ei datblygu yn y dyfodol agos ar y cyd â Gwaith Taith Bywyd.

Holodd un Aelod ynglŷn â beth sy'n well gan y bobl ifainc o ran cyfarfodydd o bell. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal dros y ffôn, roedd hynny'n golygu ei bod hi wedi bod yn anodd ymgysylltu â'r bobl ifainc. Ond roedd nifer o'r bobl ifainc wedi awgrymu defnyddio Microsoft Teams/Zoom ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. Roedd Aelodau'n awyddus i gael adborth gan y bobl ifainc, yn dilyn cyflwyno rhaglen Microsoft Teams.

Dymunodd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gofnodi'i ddiolch i'r Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd wedi gweithio'n ddiflino trwy gydol y pandemig.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Cydnabod cynnwys yr adroddiad;

52 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

53 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng 1 Hydref 2019 a 31 Mawrth 2020.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

54 Adroddiadau Rheoliad 73

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr Carn Inqli, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm

**Y Cynghorydd C Leyshon
Cadeirydd.**